

WILLIAMS, ROGER (1667 - 1730), gweinidog gyda'r Annibynwyr

Enw: Roger Williams
Dyddiad geni: 1667
Dyddiad marw: 1730
Plentyn: John Williams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Yr oedd yn aelod o eglwys Cefnarthen, Sir Gaerfyrddin, ac addysgwyd ef ond odid yn athrofa [Rhys Prydderch](#), Ystradwallter. Urddwyd ef yn weinidog i eglwysi Cefnarthen a Chwm-y-glo, Merthyr Tydfil, yn 1698. Arminiad ydoedd o ran ei ddaliadau diwinyddol, a bu hynny'n achos o derfysg rhyngddo ag aelodau Calфинаidd yr eglwysi. Crewyd rhwygiadau ynddynt ar ôl ei ddydd (gweler dan [Davies, James](#), a fu farw 1760). Bu farw 25 Mai 1730, yn 63 oed, ac urddwyd John a David Williams yn weinidogion i Gefnarthen. Gwyddys fod John yn fab iddo, a thebyg fod David yntau o'r un gwehelyth. Yr oedd y Williamsiaid yn gryf yng Nghefnarthen, ac aelodau o'r tylwyth oedd Morgan Williams, Ty'n-coed, ysgrifennydd medrus yr eglwys ac un o leygwyr amlycaf yr Ymneilltuwyr yn Sir Gaerfyrddin, a William Williams, Tredwstan, ei frawd; a John Williams, Cefncoed, tad [Williams](#), Pantycelyn.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, ii, 248, 256; iii, 582, 588

Y Tyst, 7 Hydref 1948

G. M. Roberts, *Y Pêr Ganiedydd [Pantycelyn]. Cyfrol 1 Trem ar ei fywyd; Cyfrol 2: Arweiniad i'w waith* (Aberystwyth 1949, 1958), 16-24

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20821445](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

